Y teulu Morgan ym Metws.

Pwy sy'n priodi tybed?

Pwy fasai'n meddwl! Mae Anti Jini'n priodi o'r diwedd. Mae gynni hi gariad ifanc golygus iawn o'r enw Manuel (toi boi a deud y gwir). Lwcus iawn 'nde! Maen nhw wedi penderfynu priodi ym Metws-y-Coed yn yr eglwys yng nghanol y dre. Maen nhw'n mynd i gael y wledd yng Ngwesty'r Swallow Falls (y rhaeadr ewynnol). Dach chi wedi bod yna? Mae o'n hyfryd! Beth bynnag – mae'n fore braf ym mis Medi ac mae'r dail yn dechrau troi. Nefoedd ar y ddaear!

Yn yr eglwys:

Mae pawb yn eistedd yn yr eglwys. Maen nhw wedi blino yn ofnadwy achos maen nhw wedi bod ym mharti Anti Jini y noson gynt. Iesgob annwyl! Wnaeth Anti Jini neidio i mewn i'r rhaeadr i nofio. Sgini dipio a deud y gwir. Braw mawr i bawb! Mae hi'n gallu bod yn wirion iawn os dach chi'n cofio!

Beth bynnag. Mae'r drws yn agor ac mae Anti Jini yn camu i mewn. Mae hi'n edrych yn anhygoel! Mae ei gwallt yn biws ac mae gynni hi piercings newydd mewn llefydd rhyfedd iawn. Mae hi'n gwisgo sgert fer goch, bwts hir gwyrdd a chrys rygbi Cymru. Mae gynni hi genhinen pedr yn ei cheg. Mae Manuel yn edrych braidd fel Elton John!

Mae'r organ yn dechrau. Nefoedd wen! Y TIMEWARP!!!

Mae Anti Jini a Manuel yn dechrau dawnsio i lawr yr eglwys. Dawnsio rhyfedd iawn. Mae'r gynulleidfa yn codi ac yn dechrau dawnsio a chanu. Dyma be ganon nhw:

"Mae'n naid i'r chwith
Ac wedyn cam i'r dde.
Rhowch eich dwylo ar eich cluniau
A dewch â'ch gliniau mewn yn dynn.
Mae o'n pelvic thrust
Sy'n gyrru pawb yn wyllt ..yllt…yllt..yllt.
Dewch i ni wneud y time warp eto"

Be sy'n digwydd nesa tybed?